



# Rhwydwaith Busnes Gwynedd Newyddlen 10fed Pen-blwydd

## RhBG yn Dathlu Deg!

Mae Rhwydwaith Busnes Gwynedd yn dathlu ei ddegfed penblwydd yn 2015 ac fe nodir yr achlysur garreg filltir yma gyda chyfres o ddigwyddiadau arbennig iawn ar gyfer aelodau. Mae Wythnos Fusnes Gwynedd, a gynhelir bob mis Mai wedi ei hymsefydlu'n gadarn yng nghalendr busnes y Rhwydwaith, gan gydnabod cyflawniadau cwmnïau lleol a'u cyfraniad i economi Gwynedd. Trwy gydol yr wythnos cynhelir gweithdai addysgiadol, seminarau a digwyddiadau rhwydweithio ar draws y sir, ac fe ddaw'r wythnos i ben gyda Chinio Gala Wythnos Busnes Gwynedd.



Sefydlwyd Rhwydwaith Busnes Gwynedd yn 2005 fel fforwm ar gyfer busnesau yn gweithredu yn y sir. Trwy gyfrwng cyfres o ddigwyddiadau ffurfiol ac anffurfiol, y prif amcan yw darparu cyfleoedd ar gyfer rhwydweithio a rhyng-fasnachu. Mae hefyd yn galluogi aelodau i hyrwyddo eu cynnyrch a'u gwasanaethau ac i ddarganfod cyflenwyr lleol. Gan weithredu fel llwyfan i gyfranogwyr leisio eu barn a'u pryderon, mae'n darparu adnodd hanfodol ar gyfer dylanwadu polisi a newid economaidd. Mae bwletinau electroneg rheolaidd yn rhoi manylion ynglŷn â digwyddiadau busnes, deddfwriaeth newydd a chyfleoedd hyfforddiant. Rhan o ethos RhBG yw rhannu enghreifftiau o ymarfer gorau a phrofiadau rhedeg busnes. Gwnaethpwyd cynnydd sylweddol gan y rhwydwaith yn ystod 2014 gyda 72 o aelodau newydd yn cofrestru, sy'n dod â chyfanswm yr aelodaeth i dros 700. Rhoddwyd cefnogaeth i ymgyrchoedd lleol yn cynnwys Sadwrn Busnesau Bach a chostau parcio tecach. Argraffwyd a dosbarthwyd tair Newyddlen yn ogystal â fersiwn electroneg. Fe lansir gwefan newydd yn fuan.

Rhoddir cefnogaeth ariannol a gweinyddol i'r Rhwydwaith gan Gyngor Gwynedd ac mae'n gweithio mewn partneriaeth gyda'r FSB. Mae'n gwmi cyfyngedig trwy warant wedi ei reoli gan wyth aelod gwirfoddol o'r Bwrdd. Mae'r aelodaeth yn rhad ac am ddim. I gofrestru, ymwelwch â: [www.gwyneddbusnes.net](http://www.gwyneddbusnes.net)

## Neuadd yr Enwogion

Pob blwyddyn mae Rhwydwaith Busnes Gwynedd yn dathlu'r ffaith bod rhai o bobl fwyaf talentog Cymru ymhlith ei aelodau. Mae gwobr Person Busnes Y Flwyddyn Rhwydwaith Gwynedd yn cydnabod y cyfraniad arwyddocaol a wneir gan unigolyn i sector fusnes y rhanbarth. Mae rhestr enwog o enillwyr y gorffennol yn cynnwys capteiniaid diwydiant, arbenigwyr marchnata dylanwadol ac entrepreneuriaid ysbrydoledig:

**2014 Sean Taylor (chwith)**  
Perchennog TreeTop Adventure,  
prosiectau diweddaraf Sean yw atyniadau  
Zip World Bethesda a Blaenau Ffestiniog.



**2013 Gwion Llwyd (de)**  
Perchennog Dioni Holiday Cottages,  
asiantaeth osod ar-lein ar gyfer eiddo  
hunan arlwy o safon, sy'n torri tir newydd  
gyda'r defnydd o gyfrwng digidol.



**2012 Mark Woolfenden**  
Mark Woolfenden yw Rheolwr  
Gyfarwyddwr Afonwen Laundry, enillydd  
sawl gwobr o fri ac un o gwmnïau londri  
preifat mwyaf y DU.



**2011 Richard Gloster**  
Cymerodd Richard awenau Hufen Ia  
Cadwaladers fel RG yn 1984, gan arolygu  
ehangiad cyflym y cwmni ar draws  
Gogledd Cymru, i Gaerdydd ac yna Lloegr.



**2010 Elfed Roberts**  
Arweiniodd llwyddiant entrepreneuraidd  
Elfed yn Siop Madryn, Nefyn at ei  
dyfarnu gan gadwyn Londis, yn Siop  
Londis Orau Cymru yn 2009.



**2009 Stephen ac Andrea Bristow**  
Gan gychwyn fel canolfan addysg natur yn  
1993, mae Greenwood Forest Park  
bellach yn atyniad thema eco ar gyfer  
teuluoedd sydd wedi ennill sawl gwobr.



**2008 Robin Llewelyn (canol chwith)**  
Rheolwr Gyfarwyddwr Portmeirion Cyf  
sy'n rhedeg pentref Eidalaid Portmerion,  
a adeiladwyd gan ei daid Syr Clough  
Williams-Ellis.



**2007 Yr Arglwydd Dafydd Wigley**  
Gwasanaethodd Dafydd fel AS Plaid Cymru  
dros Gaernarfon o 1974 hyd 2001 ac fel AC  
o 1999 hyd 2003. Cymerodd ei set yn  
Nhŷ'r Arglwyddi yn 2011.



**2006 Fred Foskett**  
Sefydlodd Fred Harlech Frozen Foods,  
cwmni teuluol, annibynnol. Gyda Richard  
Shepherd, roedd Fred yn aelod sylfaenol o  
RBG yn 2005.



Ysgrifennwyd, dyluniwyd a chynhyrchwyd y rhifyn dathliadol hwn o newyddlen  
RBG gan: [Jacquie.Knowles@btconnect.com](mailto:Jacquie.Knowles@btconnect.com)